Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CYNLLUN BWYD CYNALIADWY

# 2025-2030

**Sefydliad sy'n barod i'r dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac ymarfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

## CYNNWYS

CYNNWYS ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 3
2. Cyd-fynd â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 ........ 4
3. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol ........ 5
4. Cwmpas ........ 6
5. Cyflawni amcanion ........ 7
5. 1. Defnydd o gynhwysion lleol sydd ar gael yn dymhorol: ........ 7
5.2. Pennu bwyd o systemau ffermio sy'n lleihau'r niwed yn yr amgylchedd: ........ 7
5.3. Lleihau'r defnydd o rywogaethau pysgod a nodwyd fel y rhai mwyaf "mewn perygl" gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol: ........ 7
5. 4. Hyrwyddo Iechyd a Llesiant: ........ 7
5. 5. Hyrwyddo mentrau sy'n annog defnyddio dŵr tap: ........ 7
5.6. Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu: ........ 8
6. Targedau CAMPUS ........ 9
7. Monitro ac Adrodd ........ 10
8. Dolenni at bolisïau a gweithdrefnau eraill ........ 11
*Cymeradwyo* ........ **Error! Bookmark not defined.**

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn cydnabod nid yn unig ei chyfrifoldeb i ddarparu bwyd iach a chynaliadwy i'w chwsmeriaid, ond hefyd i sicrhau ei bod yn cynnal ei gweithgareddau caffael mewn modd amgylcheddol, moesegol a chymdeithasol gyfrifol, gan ddylanwadu ar gynhyrchu a bwyta bwyd cynaliadwy ledled yr ardal ehangach. Mae PCYDDS yn ymdrechu, pan fo'n briodol, i gefnogi busnesau lleol wrth gyrchu a chaffael ei chynhyrchion a'i gwasanaethau, gan weithio ar yr un pryd gyda'i chyflenwyr i leihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol y cynhyrchion a'r gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Mae'r Cynllun Bwyd Cynaliadwy hwn wedi'i ddatblygu i leihau effaith amgylcheddol negyddol gwasanaethau arlwyo yn PCYDDS drwy gamau gweithredu ymrwymedig a sefydlwyd gan adran Arlwyo'r Brifysgol. Mae'r Cynllun yn berthnasol i’r holl fannau arlwyo sy'n eiddo i'r Brifysgol. Cynlluniwyd y Cynllun Rheoli Bwyd Cynaliadwy i gefnogi ymrwymiad prifysgolion i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac yn benodol nod, 2, 3 a 14.



## 2. Cyd-fynd â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Bwyd Cynaliadwy hwn yn ddogfen gyflawni allweddol sy'n cefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030, gan drosi ymrwymiadau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu a dargedwyd i hyrwyddo systemau bwyd cynaliadwy, moesegol ac iach ar draws ei gweithrediadau arlwyo.

Mae caffael, cynhyrchu a bwyta bwyd yn elfen sylweddol o effaith amgylcheddol a chymdeithasol y Brifysgol, yn enwedig mewn perthynas ag allyriadau Cwmpas 3, bioamrywiaeth ac iechyd y cyhoedd. Felly, mae'r Cynllun hwn yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cynaliadwyedd ac uchelgeisiau PCYDDS o ran sero net, wrth gyfrannu hefyd ar yr un pryd i ganlyniadau cymdeithasol ehangach.

Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol i gyflawni pileri craidd y Strategaeth:

**EIN POBL:** Trwy hyrwyddo dewisiadau bwyd iach, cynaliadwy a chynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol bwyd, mae'r Cynllun hwn yn cefnogi iechyd a lles staff a myfyrwyr. Mae hefyd yn annog newid ymddygiad ac yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu trwy ymgyrchoedd a mentrau sy'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy.

**EIN PWRPAS:** Trwy ymgorffori arferion caffael cynaliadwy a moesegol, lleihau effaith darparu bwyd o ran carbon, a chefnogi cadwyni cyflenwi cyfrifol, mae'r Cynllun hwn yn atgyfnerthu ymrwymiad y Brifysgol i gyfrifoldeb amgylcheddol, gwerth cymdeithasol, a datblygu cynaliadwy.

**EIN LLE:** Trwy flaenoriaethu cynnyrch lleol a thymhorol, cefnogi cyflenwyr rhanbarthol, a lleihau effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â bwyd, mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu i gynaliadwyedd a gwytnwch systemau bwyd lleol a'r cymunedau y mae PCYDDS yn gweithredu ynddyn nhw.

Mae'r Cynllun Bwyd Cynaliadwy hwn wedi'i alinio'n agos â'r Cynllun Rheoli Carbon Sero Net a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd ehangach, gan ddod yn rhan o fframwaith integredig i gyflawni amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol.

## 3. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol

Mae adran arlwyo'r Brifysgol wedi cael llwyddiant sylweddol wrth weithredu Cynllun Bwyd Cynaliadwy 2022-2025, yn enwedig yn ystod cyfnod o anwadalwch prisiau cynyddol prisiau, gan lwyddo i gydbwyso cyrchu cynaliadwy, maeth a phris o fewn y bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu.

- Dileu dŵr potel ar gyfer digwyddiadau
- Peidio â phrynu diodydd potel sydd fel arfer yn llai ecogyfeillgar i'w hailgylchu
- Defnyddio ffrïwyr hidlo i leihau defnydd olew
- Offer trydaneiddio i ategu'r strategaeth datgarboneiddio
- Mae popeth tafladwy’n gompostadwy
- Ymgysylltu â grwpiau diogelwch bwyd Byrddau’r Sector Cyhoeddus.

## 4. Cwmpas

Cwmpas y Cynllun yw:

- Cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaeth arlwyo a lletygarwch o ansawdd uchel
- Mynd ati i hyrwyddo a dod o hyd i fwyd a chynhyrchion eraill yn lleol ac yn dymhorol er mwyn cefnogi'r economi leol a lleihau effeithiau amgylcheddol
- Pan fo'n bosibl, hyrwyddo'r defnydd o wyau buarth a llaeth ffres Cymreig lleol yn unol â'n hymrwymiad i leihau milltiroedd bwyd
- Ceisio hyrwyddo llesiant anifeiliaid cyfrifol trwy gaffael cynhyrchion anifeiliaid Tractor Coch neu farciau eraill sy'n gysylltiedig â llesiant
- Lleihau nifer y bwydydd o darddiad anifeiliaid (cig, llaeth ac wyau) a weinir, gan fod technegau ffermio da byw cyfredol yn cael dylanwad sylweddol ar Newid Hinsawdd
- Hyrwyddo prydau sy'n llawn ffrwythau, llysiau, ffacbys, a chnau
- Pryd bynnag y bo'n bosibl, gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau bod cynhyrchion morol a ddefnyddir yn dod o stociau cynaliadwy fel y'u gwiriwyd gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i wella'r cynhyrchion iach a ddarperir a lleihau effaith amgylcheddol eu cynnyrch a'u danfoniadau.

## 5. Cyflawni amcanion

### 5. 1. Defnydd o gynhwysion lleol sydd ar gael yn dymhorol:

- Cynllunio bwydlenni tymhorol i adlewyrchu bwyd tymhorol
- Gweithio gyda chyflenwyr i annog prynu nwyddau'n agos er mwyn lleihau milltiroedd ffordd
- Hyrwyddo a dod o hyd i gynhyrchion o Gymru a phan fo'n bosibl, o dde-orllewin a Chanolbarth Cymru, wrth sicrhau'r gwerth gorau am arian
- Sicrhau bod Mentrau Bach a Chanolig, cyflenwyr lleol a rhanbarthol, yn cael cyfle cyfartal i gynnig am gytundebau cyflenwi drwy broses dendro grŵp arlwyo CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru); bod PCYDDS yn cydymffurfio â Fframweithiau Sefydliad Arlwywyr Prifysgolion (TUCO).

### 5.2. Pennu bwyd o systemau ffermio sy'n lleihau'r niwed yn yr amgylchedd:

- Defnyddio polisïau caffael sy'n adlewyrchu'r defnydd o doriadau cost-effeithiol o gig i hyrwyddo lles anifeiliaid cyfrifol
- Lleihau nifer y bwydydd o darddiad anifeiliaid (cig, llaeth ac wyau) sy'n cael eu gweini, gan fod technegau ffermio da byw cyfredol yn cael dylanwad sylweddol ar Newid Hinsawdd
- Hyrwyddo prydau sy'n llawn ffrwythau, llysiau, pylsiau, a chnau, a phan fo'n bosibl caffael cynhyrchion Tractor Coch
- Cefnogi cynllun bwyd yr Awdurdod Lleol ac yn ei dro, y gadwyn gyflenwi leol, ffermwyr, a ffynonellau bwyd eraill er mwyn dod yn fwy cynaliadwy, hygyrch ac ecogyfeillgar.

### 5.3. Lleihau'r defnydd o rywogaethau pysgod a nodwyd fel y rhai mwyaf "mewn perygl" gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol:

- Mae bwydlenni ar gyfer Digwyddiadau Prifysgol wedi'u cynllunio o amgylch pysgod sydd ar gael mewn dyfroedd lleol
- Gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau bod cynhyrchion morol a ddefnyddir yn dod o stociau cynaliadwy fel y'u gwiriwyd gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Defnyddio rhywogaethau amrywiol o bysgod i leihau'r pwysau ar stociau sensitif
- Hyrwyddo pysgod yn unig ar restr "pysgod i'w bwyta" y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Caiff y gwaith o hyrwyddo pysgod a bwyd môr cynaliadwy ei gynnal o fewn gwasanaethau arlwyo a lletygarwch y Brifysgol.

### 5. 4. Hyrwyddo Iechyd a Llesiant:

- Cyflwyno Wythnos Byw'n Iach
- Defnyddio dulliau coginio sy'n lleihau halen, braster, olew ac ychwanegion artiffisial
- Bob tro'n darparu ystod o ffrwythau, llysiau, a saladau sy'n rhatach i'w prynu
- Cyfyngu ar y defnydd o gynhyrchion wedi'u coginio sydd wedi'u hoeri, a phrydau parod
- Lleihau'r defnydd o olew llysiau hydrogenedig ac ychwanegion artiffisial
- Hyrwyddo'r defnydd o fara gwenith cyflawn, pasta a reis brown a'u cynnwys mewn bwydlenni
- Mabwysiadu arferion coginio iach ar draws pob man arlwyo.

### 5. 5. Hyrwyddo mentrau sy'n annog defnyddio dŵr tap:

- Sicrhau bod dŵr tap ar gael ym mhob man arlwyo
- Annog a hyrwyddo'r defnydd o lestri yfed y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu ar draws ein campysau a sicrhau bod dŵr tap ar gael yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr, aelod staff ac ymwelydd
- Dim ond cyflenwad o ddŵr tap ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau
- Dileu'r defnydd o ddŵr potel mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y Brifysgol.

### 5.6. Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu:

- Cyflwyno system compostio gwastraff bwyd i'r gegin gynhyrchu ganolog
- Lleihau'r defnydd o eitemau wedi'u pecynnu'n unigol e.e. siwgr, pupur a halen ac ati
- Gweithio'n agos gyda chyflenwyr i leihau faint o ddeunydd pecynnu a lleihau nifer y danfoniadau bwyd sydd eu hangen
- Defnyddio dulliau i fonitro a lleihau gwastraff bwyd, a pharhau i ailgylchu'r olew cegin a ddefnyddir
- Pan fo'n bosibl, lleihau'r defnydd o ddŵr ac ynni wrth baratoi bwyd, gweithrediadau a Glanhau
- Ceisio sefydlu cynllun cwpanau y gellir eu hailddefnyddio i leihau faint o wastraff a gynhyrchir o ddeunyddiau tafladwy.

## 6. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol yr holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, cedwir y targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, dulliau adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi'u halinio â'r cynllun hwn a thargedau Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Amrywiaeth o strategaethau ymgysylltu ydyn nhw i sicrhau ymagwedd systematig at fwyd cynaliadwyedd.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:
https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx

## 7. Monitro ac Adrodd

Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Flaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd goruchwylio yn dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:

**Goruchwyliaeth Weithredol**

- Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
- Uwch Reolwr Arlwyo a Chynadleddau
- Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
- Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
- Adroddiadau tymhorol ar ddangosyddion perfformiad allweddol

**Goruchwyliaeth Llywodraethu**

- Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
- Cyngor y Brifysgol

**Sicrwydd Allanol**

- System Rheoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Archwiliad allanol blynyddol
- Arolygon cwsmeriaid i'w cynnal yn flynyddol

Yn achos y cynnydd:

- Adroddir arno’n flynyddol drwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
- Caiff ei integreiddio i ddangosfyrddau dangosyddion allweddol perfformiad sefydliadol
- Caiff ei alinio pan fo'n briodol â fframweithiau cydnabyddedig megis SBTi

## 8. Dolenni at bolisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

- Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
- Cynllun Rheoli Carbon 25-30
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
- Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Ynni 25-30
- Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

### Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy** **Teitl y Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd**.**

**Kevin Hodson** **Teitl y Swydd:** Uwch Reolwr Arlwyo a Chynadleddau

### Wedi'i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026

## Rheoli fersiynau'r ddogfen

| Rhif Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David